

EVANS, ELLIS (1786 - 1864), gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac awdur

Enw: Ellis Evans
Dyddiad geni: 1786
Dyddiad marw: 1864
Priod: Mary Evans (née Jones)
Rhiant: Evan Ellis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Tom Ellis Jones

Ganwyd ym Mhig-y-swch, Llanuwchllyn, Meirionnydd, 22 Mehefin 1786, yn fab Evan Ellis, trwsiw'r ffyrdd. Ymunodd ag eglwys y Bedyddwyr yn Llanuwchllyn yn 1806 a dechrau pregethu yn 1809. Ar ôl bod yn ysgol Jesse Jones, Fforddlas, aeth i athrofa'r Fenni yn 1811, gan ymadael yn 1813 i fod yn bregethwr ac ysgolfeistr teithiol. Yn 1814 priododd Mary Jones, Fforddlas, ac yn y flwyddyn ganlynol ordeiniwyd ef a'i sefydlu'n fugail ar eglwysi Llanefydd, Llansannan, a Llangernyw. Oherwydd na ddoniwyd ef yn helaeth fel areithydd, nid oedd yn bregethwr poblogaidd, eithr yr oedd yn fawr ei fri fel diwinydd ac esboniwr ysgolheigaidd. Yr oedd yn feddyliwr pur wreiddiol, yn hyddysg yn hanes yr Eglwys, ac yn ysgolhaig o gryn safon. Yn 1819 cafodd alwad i fugeiliaeth Cefn Mawr ac yno y bu hyd ei farw, gan roddi gwasanaeth gwerthfawr i'w enwad fel pregethwr, ysgrifennwr, a threfnydd. Ar wahân i feithrin a chryfhau ei eglwys ei hun bu iddo ran amlwg mewn sefydlu naw eglwys arall yn y cylchoedd cyfagos. Ymhlith ei liaws cyhoeddiadau y mae'r rhai canlynol: *Unoliaeth a Gweledigaeth yr Eglwys, sef, Llythyr Cymanfa Cefn Mawr*, 1828; *Arddangosiad syml o Syniadau Gwahaniaethol, neu Egwyddorion Priodol, y Bedyddwyr Crediniol*, 1829; *Anogaeth i Athrawon ac Athrawesau ein Hysgolion Sabothol*, 1830; *Cofiant Abel Vaughan*. Yn ei brif waith, *Hanes y Bedyddwyr ac Egwyddorion Sylfaenol ein Cyfundraeth*, bwriadasai olrhain hanes yr enwad o'r dechrau hyd at ei ddydd ef ei hun, ond bu farw cyn cwplâu'r gwaith, a phedair rhan yn unig a gyhoeddwyd. Yn ddiweddarach rhestrwyd ei ddefnyddiau gan [Spinther James](#), ac ef hefyd a gasglodd ei lythyrau sydd yn awr yng nghasgliad [Spinther](#) yn y Llyfrgell Genedlaethol; y mae ei draethodau ar y Tadau Apostolaidd hefyd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bu farw 28 Mawrth 1864.

Awdur

Y Parchedig Brifathro Tom Ellis Jones, (1900 - 1975)

Ffynonellau

Cofiant y diweddar Barch. E. Evans, D.D., gweinidog i'r Bedyddwyr yn y Cefn Mawr (1866); gan R. Ellis
Greal Llangollen, 1864

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70)

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, iii, 382; iv, 1, 45

Y Tyst Apostolaidd, 1847

The Baptist Magazine (1809–1904), 1816

Seren Gomer, Ionawr 1949

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [103541753](#)

Wikidata: [Q20732998](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

